

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 4ydd Tachwedd, 2025, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
YN
BRESENNOL:

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Rachel Buckler,
Emma Bryn, Jan Butler, Tony Easson, Steven Garratt,
Meirion Howells, Su McConnel, Jayne McKenna, Sue Riley,
Ann Webb

Cynghorydd Sirol: David Jones, Louise Brown, Paul Pavia

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Andrew Jones	Pennaeth Cynllunio
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Paige Moseley	Solicitor
Richard Ray	Paralegal
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol John Crook and Dale Rooke

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 7fed Hydref 2025 yn gofnod cywir.

3. Cais DM/2019/02051 – Adeiladu 20 (ugain) uned tai fforddiadwy, tirlunio a gweithiau cysylltiedig. Tir yn Wern Gifford, Pandy, Y Fenni, NP7 8DL.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

Cyflwynwyd y cais hwn i'r Pwyllgor Cynllunio ar 3ydd Mawrth 2020 lle penderfynwyd cymeradwyo'r datblygiad yn amodol ar ddatrys gwrthwynebiad daliannol a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas â modelu llifogydd.

Yn y cyfamser, cafodd datblygiad preswyl o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwy ei ohirio oherwydd bod yr afon wedi methu â chynnal targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosforws. O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, bydd datblygiad a allai gynyddu crynodiad lefelau ffosffadau yn destun asesiad priodol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. O'r herwydd, cynhaliwyd Prawf o Effaith Arwyddocaol Debygol (TOLSE) sy'n dod

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 4ydd Tachwedd, 2025, 2.00 pm

i'r casgliad nad yw'r datblygiad arfaethedig hwn yn debygol o gael Effaith Arwyddocaol ar ACA yr Afon sy'n sensitif i ffosffadau ac nad oes angen Asesiad Priodol llawn.

<https://www.youtube.com/live/lj7Y-ZUqrcE?si=9NAGjE80EdK8uuZh&t=172>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Meirion Howells ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jan Butler ein bod o blaid gohirio ystyried cais DM/2019/02051 i wirio gyda Dŵr Cymru (DCWW) na fyddai trefniadau carthffosiaeth budr ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn gwaethygu problemau presennol yn yr ardal.

Yn dilyn pleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid gohirio	- 10
Yn erbyn gohirio	- 0
Wedi ymatal	- 0

Pasiwyd y cynnig.

Penderfynon ni ein bod ni o blaid gohirio ystyried cais DM/2019/02051 i wirio gyda Dŵr Cymru (DCWW) na fyddai trefniadau carthffosiaeth budr ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn gwaethygu problemau presennol yn yr ardal.

4. Cais DM/2023/01198 – Codi 2 (dwy) uned ychwanegol ar gyfer dofednod a seilwaith cysylltiedig ar fferm dofednod sefydledig. Coombe Farm, Cwm Mill To Shirenewton, Drenewydd Gellifarch, Cas-gwent.

Ystyriwyd adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr a gyflwynwyd i'w gwrthod gydag un rheswm wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd y cais hwn i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Hydref 2024 ac fe'i cymeradwywyd wedi hynny yn amodol ar amodau. Yna bu'r cais yn destun Adolygiad Barnwrol a phenderfynwyd bod y cynnig yn ddatblygiad AEA o dan faen prawf 1(c) Atodlen 2 o Reoliadau AEA ac y dylid bod wedi cyflwyno Datganiad Amgylcheddol. Felly, diddymwyd y penderfyniad a'i ddychwelyd i'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu. Mae'r ymgeisydd bellach wedi cyflwyno Datganiad Amgylcheddol, ailymgynghorwyd â phob parti â diddordeb a hysbysebwyd y cais yn unol â hynny.

<https://www.youtube.com/live/lj7Y-ZUqrcE?si=Cfnu5Xanon3bEWfu&t=5870>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Rachel Buckler ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jan Butler y dylid gwrthod cais DM/2023/01198 am yr un rheswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn pleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid gohirio	- 10
Yn erbyn gohirio	- 0
Wedi ymatal	- 1

Pasiwyd y cynnig.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 4ydd Tachwedd, 2025, 2.00 pm

Penderfynon ni y dylid gwrthod cais DM/2023/01198 am yr un rheswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

5. Cais DM/2025/01100 – Cadw ffens derfyn a chlwyd mynedfa. Marchwood, Heol St Lawrence, Cas-gwent, NP16 5BJ.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a gyflwynwyd i'w gwrthod gyda dau reswm wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

<https://www.youtube.com/live/lj7Y-ZUqrcE?si=jTZinytRhvh5waku&t=6737>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Rachel Buckler ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Emma Bryn y dylid gwrthod cais DM/2025/01100 am y ddau reswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn pleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid gohirio	- 7
Yn erbyn gohirio	- 3
Wedi ymatal	- 1

Pasiwyd y cynnig.

Penderfynon ni y dylid gwrthod cais DM/2025/01100 am y ddau reswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

6. ER GWYBODAETH – Yr Arolygiaeth Gynllunio – Penderfyniadau a Gafwyd ar Apeliadau:

<https://www.youtube.com/live/lj7Y-ZUqrcE?si=A3NBCdffFy0WtNxD&t=7930>

6.1. Tir yn Cobbs Tump, Duffields Lane, Upper Redbrook, Redbrook, Trefynwy, NP25 4LU.

Derbyniwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd ar dir yn Cobbs Tump, Duffields Lane, Upper Redbrook, Redbrook, Trefynwy, NP25 4LU ar 7fed Hydref 2025.

Nodwyd bod yr apêl wedi'i gwrthod, a bod caniatâd cynllunio wedi'i wrthod.

6.2. Tir yn Millers Arms Pub, Heol Matharn, Matharn, Sir Fynwy, NP16 6JD.

Derbyniwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd ar dir yn Millers Arms Pub, Mathern Road, Mathern, Sir Fynwy, NP16 6JD ar 23 Medi 2025.

Nodwyd bod yr apêl wedi'i gwrthod a bod yr hysbysiad gorfodi wedi'i gadarnhau.